Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Adroddiad Blynyddol

## 2016-2017



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Prif Weithredwr | 3 |
| Ein cyflawniadau a'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn | 4 |
| Darparu gwasanaethau | 6 |
| Cyfranogi | 11 |
| Dysgu a datblygu | 12 |
| Sicrhau ansawdd | 13 |
| Edrych ar y flwyddyn i ddod | 15 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31241 ISBN digidol 978 1 78859 528 5

# Rhagair gan y Prif Weithredwr

Mae'r cynnydd sylweddol mewn gwaith eleni wedi bod yn arbennig o heriol i Cafcass Cymru. Dim ond o ganlyniad i ymroddiad a phroffesiynoldeb ein staff roedd modd i'r sefydliad ymateb i'r cynnydd hwn a darparu gwasanaeth amserol i blant a'r llysoedd. Yn ystod y flwyddyn cawsom gynnydd o 17% mewn atgyfeiriadau cyfraith gyhoeddus, cynnydd o 25% mewn ceisiadau Adran 31 a chynnydd o 26% yn nifer y ceisiadau cyfraith breifat. At ei gilydd, gwnaethom weithio gyda bron 8,500 o blant a phobl ifanc.

Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y plant a oedd yn destun achosion gofal, yn codi o 1,371 yn 2015-16 i 1,642 yn 2016-17, ar gyfartaledd cwblhawyd achosion yng Nghymru mewn 24.5 o wythnosau, o'i gymharu â pherfformiad Cymru a Lloegr, sef 27 o wythnosau. Cyflawnwyd hyn gan ymroddiad yr holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru'n gweithio gyda'i gilydd.

Roedd uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Gwahodd y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol i archwilio ein hystafelloedd cyfarfod er mwyn rhoi adborth beirniadol ar yr hyn y gallem ei wneud i'w gwneud yn lleoedd mwy cyfeillgar a llawn gwybodaeth i blant a'u teuluoedd ymweld â nhw.
- Ymgysylltu â phobl ifanc a rhanddeiliaid i adnewyddu a diweddaru ein logo a'n hunaniaeth gorfforaethol.
- Gweithio gyda staff er mwyn datblygu a gweithredu system cynllunio a chofnodi electronig newydd.
- Datblygu gwaith ein Rhaglen Arloesedd a chyflwyno rhagor o welliannau i gefnogi ein hymarferwyr a chyflawni mwy o effeithlonrwydd.
- Gweithredu Rhaglen Dysgu a Datblygu i gefnogi ein staff i barhau i ddysgu a datblygu'n barhaus a hyrwyddo hynny.

Hoffwn cymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gillian Baranski a oedd yn Brif Weithredwr Cafcass Cymru o fis Tachwedd 2010 tan fis Hydref 2016 am y cyfraniad gwerthfawr a wnaeth wrth arwain a rheoli'r sefydliad trwy gyfnod o newid sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn, gorffennodd Catriona Williams ei chyfnod deng mlynedd fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Cafcass Cymru. Roedd Catriona'n eiriolydd cadarn ac yn gyfaill beirniadol i Cafcass Cymru. Mae'n bleser gennyf bod Jackie Murphy, Prif Weithredwr Tros Gynnal, wedi derbyn rôl Cadeirydd ym mis Ionawr 2017.

Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, yr wyf yn siŵr y bydd yn dod â heriau a chyfleoedd newydd. Mae'n fraint bod yn Brif Weithredwr Dros Dro Cafcass Cymru a gweithio gyda staff a rhanddeiliaid sy'n ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Nigel Brown

Prif Weithredwr Dros Dro

# Ein cyflawniadau a'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn gwaith cyfraith gyhoeddus a phreifat yn 2016-17, bu i ni barhau i ddyrannu achosion newydd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt gan sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael gwasanaeth amserol pan oedd ei angen arnynt fwyaf.

Nodwyd bod yr angen i gyflwyno system cynllunio a chofnodi achosion ddiwygiedig i ymarferwyr gofnodi eu gwaith yn electronig fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2016-17. Yn dilyn cyfnod o brofi ac adborth staff ar y system gychwynnol, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau sylweddol i gefnogi ansawdd gwaith cynllunio a chofnodi achosion ac i brif ffrydio'r system a gaiff ei chyflwyno ym mis Ebrill 2017. Mae ein model syml newydd yn:

- Canolbwyntio ar y plentyn a'r materion a nodwyd.
- Darparu cofnod cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddigwyddiadau trwy gydol oes yr achos.
- Darparu dadansoddiad o wybodaeth allweddol a sut y gwneir penderfyniadau.
- Cynnal atebolrwydd proffesiynol a sefydliadol.




Yng nghyd-destun cyfyngiad ariannol parhaus, cynaliasom Weithdai Arloesedd gyda staff yn 2016-17 i adolygu'r hyn rydym yn ei wneud ac archwilio cyfleoedd i wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, daeth nifer o brosiectau a ffrydiau gwaith i'r amlwg a oedd yn canolbwyntio ar sawl maes, gan gynnwys:

- Peilot Adroddiad Ymholiadau Diogelu gyda chynhwysiad allweddol ein staff Cymorth Busnes.
- Ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar waith ein Tîm Gweinyddu Canolog yn arwain at welliannau ym mherfformiad y tîm.
- Gweithio gyda'n staff a'r farnwriaeth i adolygu sut rydym yn gweithio achosion cyfraith gyhoeddus a chanolbwyntio ar adolygu, egluro a phrif ffrydio ein templedi adroddiad a chanllawiau ymarfer mewn achosion cyfraith gyhoeddus.

Yn 2016-17, cynigiwyd cyfleoedd lleoliad i ddau fyfyriwr gwaith cymdeithasol yn ein hardal weithredol yng Ngwent fel rhan o'u taith 'ymarfer' i fod yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig. Mae'r penderfyniad hwn yn gysylltiedig â'n huchelgais i chwarae rhan wrth feithrin datblygiad gweithlu gwaith cymdeithasol iach yng Nghymru a'n hymroddiad parhaus i fod yn sefydliad 'dysgu'.

Ym mis Ionawr 2016, lansiwyd ein 'Cynllun Strategol 2016-19 – Rhoi Llais' newydd. Ar gyfer cyfnod y cynllun hwn, nodwyd gennym bedwar nod strategol i roi cyfeiriad clir a ffocws tymor hir i ni ar gyfer ein hymdrech a'n hadnodd yn y blynyddoedd i ddod. Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud cynnydd da ym mhob un o'n pedwar nod strategol:

1. Rhoi cyngor a gwybodaeth arbenigol, annibynnol, amserol ac o ansawdd uchel i blant, teuluoedd a llysoedd.
2. Sicrhau bod ein hymyriad yn hyrwyddo llais y plentyn a'i fod yn canolbwyntio ar ei hawliau, ei les a'i fuddion pennaf.
3. Dylanwadu ar y System Cyfiawnder Teuluol a gwasanaethau i blant yng Nghymru.
4. Galluogi staff i fod cystal ag y gallant fod mewn sefydliad dynamig, amrywiol ac agored.

Parhaom i ddatblygu a gwella perthnasoedd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn ystod 2016-17 yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag Uwch-farnwr Teulu Cymru a Barnwr Teulu Dynodedig; cyfarfodydd rhwng Awdurdod Lleol Penaethiaid y Gwasanaethau Plant a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLIThEM); a chyfranogiad gweithredol yn y tri Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol. Yn ogystal â phenodi cadeirydd newydd ein Pwyllgor Cynghori, adolygasom ei aelodaeth ac mae aelodau newydd wedi ymuno er mwyn cryfhau cynrychiolaeth gan asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn eu cynrychioli.

Yn yr un modd, yng ngoleuni effaith gadarnhaol ein rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd er Lles Plant (cysylltiedig â Gweithgareddau Trefniadau Plant) yng nghyd-destun y Llys Teulu, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Is-adran Plant a Theuluoedd yn Llywodraeth Cymru i archwilio'r potensial o drefnu bod y rhaglen ar gael yn ehangach ac yn hygyrch i deuluoedd yng Nghymru.

**"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch o galon am y proffesiynoldeb a'r trugaredd a ddangoswyd gan yr FCA. Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn i fod wedi cael mynediad at y bobl â phrofiad yn y sector hwn..." – *Tad***

# Darparu gwasanaethau

## Cyllideb

Ein cyllideb ar gyfer 2016-2017 oedd £10.162m, yr oedd y rhan fwyaf ohono'n gostau staff (90%); rydym yn cyflogi 142 o ymarferwyr gwaith cymdeithasol ar draws Cymru yn ogystal â 78 o staff cymorth. Roedd 10% gweddillol ein cyllideb yn cynnwys costau rheoli a gwasanaethau cymorth i deuluoedd trwy orchymyn llys.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae dau Ddangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n mesur ac yn asesu pa mor dda rydym yn perfformio:

- DPA 1: Diwrnodau gwaith cyfartalog i ddyrannu achosion Adran 31 – Targed = llai na tri diwrnod gwaith.
- DPA 2: Cyfran y llwyth gwaith cyfraith breifat agored a ddyrennir – Targed = mwy na 95% neu'n gyfartal â hynny.

Er gwaethaf y pwysau sy'n wynebu'r sefydliad wrth ateb y galw uwch ar ein staff, rydym wedi cyflawni'r targed ar gyfer DPA 1 trwy ddyrannu achosion Adran 31 mewn 1.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd yn 2016-17.


Roedd ein perfformiad yn erbyn DPA 2 ychydig islaw ein targed o 95% ar gyfer y flwyddyn, sef 91.9% ar gyfartaledd.

**"Roedd yr FCA yn broffesiynol iawn. Roedd hi'n glir iawn yn y llys y byddai'r bechgyn mewn perygl yng ngofal y tad yn yr Adroddiad Adran 7 ac fel tyst yn y gwrandawiad terfynol" – Mam**

## Nifer y Plant y Gwnaethom Weithio Gyda nhw

Yn ystod 2016-17, gwnaethom weithio gyda bron 8,500 o blant a phobl ifanc, sef cynnydd o 12% o'i gymharu â'r 7,500 yn 2015-16. Bu cynnydd o 17% yn nifer y plant a oedd yn ymwneud â Cafcass Cymru ers 2014-15. Roedd y rhan fwyaf o'r plant y gwnaethom weithio gyda nhw (83%) yn ddeng mlwydd oed neu'n iau.

Mae ein gwaith yn cael ei rannu'n ddau faes yn bennaf: cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Mae'r galw a roddir ar bob maes gwaith yn amrywio'n sylweddol ac mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o lefel y galw am y gwasanaethau hyn.







## Cyfraith Gyhoeddus

Cyfanswm y plant a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus yn 2016-17 oedd 3,012, sef cynnydd o 17% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ceisiadau cyfraith gyhoeddus wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 24% ers 2014-15.

Y prif ysgogwr yng ngwaith cyfraith gyhoeddus yw ceisiadau Adran 31 (gofal). Gwneir ceisiadau Adran 31 i'r llys gan awdurdod lleol lle mae ganddo bryderon sylweddol am ddiogelwch neu les plentyn. Cawsom 1,039 o geisiadau yn 2016-17, sef cynnydd o 25% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.







## Cyfraith Breifat

Mae achosion cyfraith breifat yn codi pan fo anghydfod ar ôl gwahanu ynghylch trefniadau plant, megis lle dylai'r plentyn fyw a/neu bwy mae'n ei weld, nad yw aelodau teulu'n gallu eu datrys heb ymyriad gan y llys. Yn y gwrandawiad cyntaf, rydym yn cwrdd â'r partïon i'w helpu i gytuno ar drefniant i'w plant sy'n ddiogel ac er budd pennaf y plentyn. Lle na ellir cyrraedd cytundeb oherwydd anghydfod rhwng y rhieni ar faterion diogelu, gall y llys ofyn i ni gynnal asesiad a llunio adroddiad i gynorthwyo'r llys i wneud penderfyniad.

Mewn cyfraith breifat, pan fydd parti wedi gwneud cais am Orchymyn Trefniadau Plentyn, byddwn yn llunio Adroddiad Ymholiadau Diogelu **(SER)** i'r llys cyn yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf. Ceir gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad oddi wrth yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ac o gyfweliadau ffôn â'r partïon. Diben yr adroddiad yw rhoi manylion am unrhyw risg i'r llys ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am blentyn yn yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf.

Ar ôl y gwrandawiad llys cyntaf, os nad yw'r partïon yn gallu dod i gytundeb am y plentyn neu os oes pryderon am les y plentyn, gall y llys ofyn i ni lunio adroddiad a adwaenir fel adroddiad **Adran 7**.

Mae cyfeiriadau cyfraith breifat wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chynnydd o 26% yn 2016-17. Cyfanswm y plant oedd yn ymwneud ag achosion preifat yn 2016-17 oedd 5,479.
Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr SER dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda chynnydd o 19% yn 2015-16 wedi'i ddilyn gan gynnydd pellach o 24% yn 2016-17. Mae nifer yr adroddiadau Adran 7 rydym wedi'u llunio hefyd wedi codi, gyda chynnydd o 10% ac yna 20% dros bob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf.




## Adroddiadau Cyfraith Gyhoeddus yn ôl Ardal Llys

Mae Rheol 16.4 yn ddarpariaeth, o dan Reolau Trefniadaeth Teulu 2010, i'w hystyried os bydd plentyn yn ymwneud ag achos cyfraith breifat cymhleth lle mae gan y llys y pŵer i wneud y plentyn yn barti i'r achosion trwy benodi Gwarcheidwad i'r plentyn.

Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau Cyfraith Breifat Adran 7, Atodiad a Rheol 16.4. a oedd yn ofynnol ar draws pob ardal ddaearyddol o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Bu cynnydd o 21%, 63% a 100% yng Ngogledd Cymru, 15%, 47% a 15% yn Ne-Ddwyrain Cymru a 29%, 42% a 35% yn Ne-Orllewin Cymru yn y drefn honno.


### Gogledd Cymru

Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Powys-Gogledd





### De-Ddwyrain Cymru

Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Casnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy




### De-Orllewin Cymru

Pen-y-Bont ar Ogwr, Castell-Nedd Port Talbot, Abertawe, Powys-De, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Ceredigion



# Cyfranogi

Yn 2016-17, gwnaethom adeiladu ar weithrediad llwyddiannus y Rhaglen Cyfranogi Dy Lais, ein rhaglen dair blynedd o brosiectau rhyng-gysylltiedig sy'n grymuso'r sefydliad i adeiladu ar gyfranogiad o ddydd i ddydd sydd gan ein staff â phlant a phobl ifanc, gan alluogi'r bobl ifanc hynny i ddylanwadu ar y ffordd y maen nhw, yn ogystal â phlant yn y dyfodol, yn derbyn ein gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i wneud newidiadau i'n gwasanaeth i gynnwys:

- Creu 'Adnodd Deall y Jargon' i helpu plant a phobl ifanc i ddeall yn well eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin yn y Llys Teulu.
- Creu templedi llythyr a llun i blant a phobl ifanc gyfathrebu â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar eu hachos.
- Cynnal adolygiad a gwneud newidiadau i'r broses gwyno plant a phobl ifanc.
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn ffurfiol yn y broses sefydlu ar gyfer ein staff.
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol i gynllunio ac arwain adolygiadau o chwech o'n swyddfeydd i sicrhau eu bod yn briodol i blant a phobl ifanc.
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar ailfrandio Cafcass Cymru, gan greu logo a brand sy'n adlewyrchu natur ddynamig y sefydliad sy'n canolbwyntio ar blant.
- Creu cyfres o gymeriadau Cafcass Cymru newydd i'w defnyddio ar ddogfennaeth plant a phobl ifanc.
- Hyfforddiant pwrpasol i'n hymarferwyr ar CCUHP.
- Creu eitem cofnodi achosion Llais y Plentyn ar ein system achosion electronig.

Er mwyn croesawu a chefnogi'r diwylliant cyfranogiad ymhellach, rydym wrthi'n symud o fodel bwrdd canolog i fodel mwy cynhwysol sydd dan arweiniad staff, trwy sefydlu Rhwydwaith Cyfranogi. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys 30+ o aelodau, â chysylltiadau â sefydliadau a grwpiau cyfranogiad eraill ar draws Cymru a Lloegr. Yn 2017-18, bydd y rhwydwaith yn dechrau arwain ar ardaloedd cyfranogiad allweddol ar draws Cymru, gan gynnwys gwella'r dulliau i bobl ifanc roi adborth i ni, ymchwilio i sut gallwn gynnwys plant a phobl ifanc wrth i ni recriwtio a dethol staff newydd a diweddaru ein pecynnau gwybodaeth plant.




# Dysgu a datblygu

Mae Dysgu a Datblygu'n flaenoriaeth allweddol i'r sefydliad gyda'r holl staff yn cael cyfle i ddylanwadu ar ein cynllun hyfforddi blynyddol. Bu hon yn flwyddyn brysur a bywiog iawn gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi'n ymgorffori blaenoriaethau a nodwyd gan ein staff.

Roedd yr holl ddigwyddiadau hyfforddi'n adlewyrchu cyfranogiad gweithredol gan staff a ddangosodd eu hymroddiad i ddatblygiad proffesiynol i gefnogi gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i blant a theuluoedd. Roedd rhai o'n huchafbwyntiau'n cynnwys:

- Cydweithredu â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cynnal digwyddiadau amlasiantaethol ar draws Cymru sy'n canolbwyntio ar gyflwyniad ynghylch gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Gwnaethom hwyluso gweithdai ar ôl i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 gael ei chyflwyno; ystyried dyfarniadau cyfreithiol diweddar sy'n ymwneud â chyfraith achosion cam-drin domestig, effaith perthnasoedd oedolion ar blant lle mae rheolaeth trwy orfodaeth, ac ymchwil ar "Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod".
- Cyflwynasom Raglen Sefydlu Graidd i Ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr newydd a oedd yn cynnwys cyflwyniadau o safon uchel gan staff profiadol ar draws y sefydliad. Cefnogwyd y digwyddiad cyntaf gan seminar gan Farnwr yn rhoi "Golwg o'r Fainc" a oedd yn cynnwys sesiwn holi ac ateb.
- Mae staff gweinyddol wedi darparu rôl allweddol wrth gyflwyno hyfforddiant i gefnogi gweithredu ein System Cofnodi a Gwybodaeth Integredig newydd.
- Rydym wedi parhau i annog yr holl staff i ddilyn cyfleoedd arwain a rheoli yn Llywodraeth Cymru.
- Mae gan yr holl staff fynediad hefyd i Community Care Inform, sy'n rhoi cyfoeth o arweiniad ymarfer, adnoddau, dysgu, ymchwil a gwybodaeth gyfreithiol.

Yn 2017-18, byddwn yn diweddaru ein rhaglen dysgu a datblygu ac yn parhau i gyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu staff. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys gweithdai ar lunio adroddiadau cryno a dadansoddol, diogelu plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, perthynas brodyr a chwiorydd, effaith cam-drin domestig ar blant, radicaleiddio, ac effaith lefelau uchel o wrthdaro anhydrin rhwng rhieni ar blant.



# Sicrhau ansawdd

Eleni rydym wedi bod yn datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella. I'w lansio yn 2017-18, bydd y fframwaith newydd yn dod â holl elfennau sicrhau ansawdd ynghyd, gan wneud y cysylltiad angenrheidiol â dysgu mewnol a gwella sefydliadol gyda chanlyniad y plentyn yng nghanol popeth rydym yn ei wneud. Bydd hefyd yn rhoi strwythur ar gyfer coladu a rhannu gwybodaeth allweddol â chyrff allanol er mwyn cyfrannu at newid a nodwyd a gwelliannau i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd Tîm Sicrhau Ansawdd pwrpasol yn ysgogi'r fframwaith yn ei flaen. Mae'r fframwaith yn hyrwyddo system sy'n galluogi'r sefydliad i fod yn sefydliad myfyriol a dysgu ac yn un sy'n gweithio'n agos gydag eraill i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Mae'r fframwaith yn cynnwys:

- Gwella ein systemau mewnol ar gyfer coladu a rhannu data allweddol.
- Adolygu ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Cryfhau ein cysylltiadau â chyrff allanol allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i rannu gwybodaeth er mwyn llywio cynllunio a datblygu gwasanaeth ehangach.
- Defnyddio ein data er mwyn llywio gwelliannau mewn gwasanaethau a chanlyniadau ar draws y system cyfiawnder teuluol.
- Gwella ein dulliau adborth gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid er mwyn cynyddu nifer yr ymatebion rydym yn eu cael i ddangos tystiolaeth o'n llwyddiannau a nodi gwelliannau gwasanaeth.
- Gweithredu dulliau archwilio mewnol newydd:
  - Adolygiadau Ymarfer – gan ddefnyddio model seiliedig ar gryfderau, byddwn yn canolbwyntio ar adolygu ansawdd ymarfer i gryfhau cysondeb ac ansawdd ein gwasanaethau. Bydd Adolygiadau Ymarfer yn elfen o'n model goruchwylio diwygiedig a byddant yn cael eu cynnal gydag ymarferwyr trwy gydol y flwyddyn, gan ddangos tystiolaeth o arfer da a meysydd i'w datblygu;
  - Archwiliadau thematig – Mae'r rhain yn adolygiadau mewnol o wybodaeth rydym yn ei chadw y gellir ei rhannu â gweithwyr proffesiynol allweddol ar gyfer dysgu ehangach.

Bydd gan y fframwaith gyswllt uniongyrchol â Chynllun Dysgu a Datblygu, Cynllun Strategol ac Adroddiad Blynyddol y sefydliad.

**"Hoffwn ddiolch i chi, oni bai amdanoch chi, rwy'n credu y gallwn fod wedi colli fy mhlant. Nhw yw fy myd! Diolch eto!" – Mam**

## Canmoliaeth a Chwynion


Yn ystod y flwyddyn, cawsom 48 o ganmoliaethau oddi wrth rieni, aelodau teulu eraill, cyfreithwyr a'r farnwriaeth. Mae pob canmoliaeth yn cael ei chofnodi a'i defnyddio er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu.

Mae rhan helaeth o'r adborth positif rydym yn ei dderbyn gan rieni yn canmol y gwaith positif a'r gefnogaeth a dderbynwyd gan ein Hymgynghorwyr Llys Teulu a'n Gweithwyr Cymdeithasol Llys Teulu yn ystod amser anodd ym mywydau'r plant. Rydym hefyd wedi derbyn canmoliaeth gan farnwyr a chyfreithwyr ynglŷn ag ansawdd yr adroddiadau a ddarperir, a phroffesiynoldeb ein Hymgynghorwyr Llys Teulu a'n Gweithwyr Cymdeithasol Llys Teulu.

Rydym yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac yn croesawu'r cyfleoedd dysgu sy'n codi o ymchwiliadau cwynion. Lle mae'r rhain yn cael eu nodi, maent yn cael eu bwydo'n ôl i'n proses Dysgu a Datblygu.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017, gweithiodd Cafcass Cymru gyda bron 8,500 o blant a phobl ifanc. Yn ystod y cyfnod hwn, cawsom un gŵyn yn unig oddi wrth berson ifanc ac ymchwilio iddi. Roedd y cwynion eraill (78) yr ymchwiliwyd oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth oedolion. Mae hyn yn ostyngiad o ychydig dros 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ceir cwynion dros y ffôn, trwy e-bost, llythyr a ffurflen ar-lein. O'r 79 o ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â'n gwaith cyfraith breifat. Gwnaethom ymateb i 86% ohonynt o fewn ein hamser targed, sef 30 o ddiwrnodau gwaith a chafodd 25 naill ai eu cadarnhau'n llwyr neu fe gafodd elfennau o'r gŵyn eu cadarnhau.



# Edrych ar y flwyddyn i ddod

Yn 2017-18, byddwn yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni trwy'r gwaith arloesedd, ac yn parhau i weithio gyda'n staff a'n rhanddeiliaid allweddol i adolygu'r ffordd orau o ymateb i'r galw ar ein gwasanaethau. Mae'n amlwg bod her wrth geisio parhau i gyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl a bodloni'r cynnydd hwn yng nghyd-destun adnoddau presennol.

Rydym yn chwarae rôl hanfodol wrth ddiogelu a hyrwyddo buddion plant a phobl ifanc sy'n dylanwadu ar deuluoedd a llysoedd i wneud y penderfyniadau gorau posibl iddynt. Byddwn yn parhau i geisio dyrannu'r holl waith mewn modd amserol trwy sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio orau er mwyn darparu gwasanaeth amserol a chyson i blant, teuluoedd a llysoedd ledled Cymru.

> **"Hoffwn ddiolch i chi eto am y ffordd i chi ymdrin â'n hachos gorchymyn rhiant. Roedd yn brofiad cadarnhaol i ni, yn groes i'n rhagdybiaethau am y broses" – *Tad***



